Fersiwn Print Mawr

Canllawiau mynediad i ymwelwyr anabl

Fersiynau Braille, tâp sain a CD ar gael hefyd
Ffoniwch 029 2087 8887 neu ffacsiwch 029 2087 8788

http://welsh.newtheatrecardiff.co.uk/mynediad

Cynnwys

New Theatre	3
Sut i archebu a chasglu tocynnau	4
Gostyngiadau	5
Cyrraedd a gadael y New Theatre	6
Symud o amgylch y theatr	7
Yr Awditoriwm	8
Seddi hygyrch	10
Lifft arbennig	13
Cyfleusterau i bobl ddall a rhai â nam ar eu golwg	15
Cyfleusterau i bobl fyddar a phobl trwm eu clyw	17
Gwybodaeth i Bobl Awtistig	20
Cyfleusterau eraill	22
Sut i gysylltu â ni	23

New Theatre

Theatr fawr o'r oes Edwardaidd yw'r New Theatre, sy'n gwasanaethu Caerdydd a'r cylch gydag amrywiaeth eang o adloniant o'r radd flaenaf gydol y flwyddyn. Rydym yn ymrwymo i gynnig mynediad i bawb.

Wedi'i lleoli yng nghanol y brifddinas ar gornel Plas y Parc a Heol y Brodyr Llwydion, dyma'r theatr hynaf yng Nghaerdydd sy'n dal i fodoli, gyda lle i 1100 o bobl. Wedi'i hariannu gan Gyngor Dinas Caerdydd, mae'n cyflwyno'r goreuon o fyd y ddrama, opera, dawns, sioeau cerdd a chomedi i'r De.

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

Sut i archebu a chasglu tocynnau

Gallwch archebu tocynnau ymlaen llaw trwy ffonio, ffacsio neu alw'n bersonol, rhwng 10 y bore a 6 yr hwyr ddydd Llun i ddydd Sadwrn (a tan 8 yr hwyr ar nosweithiau perfformiadau). Mae staff yn hapus i helpu gydag unrhyw anghenion unigol.

Mae'r Swyddfa Docynnau ar y llawr gwaelod gyferbyn â'r prif ddrysau swingio. Gallwch gasglu'ch tocynnau yma ar y noson neu ymlaen llaw. Dylech dalu o fewn tridiau i archebu tocyn, naill ai ag arian parod neu gerdyn (MasterCard, Visa a Maestro). Mae yna ddau gownter, un yn 110cm o uchder a'r llall yn 75cm. Mae system dolen sain ar gownter isa'r Swyddfa Docynnau sy'n addas i gwsmeriaid â'r switsh 'T' ar eu teclyn cymorth clyw.

Rydym yn gwerthu tocynnau ar-lein hefyd, er nad yw llefydd i gadeiriau olwyn, seddi rhes V y Llawr Gwaelod, Bocsys a rhai gostyngiadau ar gael trwy'r dull hwn. Ffoniwch y Swyddfa Docynnau i archebu'r seddi a'r gostyngiadau hyn.

Amseroedd agor

Mae'r theatr ar agor o 10 y bore tan 6 yr hwyr ar ddiwrnodau lle nad oes perfformiadau, neu tan ddiwedd y noson pan fo perfformiadau. Mae bar y Llawr Gwaelod ar agor wedi'r sioe ar nosweithiau perfformiad. Gallwch fynd i'ch sedd yn yr awditoriwm oddeutu 30 munud cyn dechrau'r perfformiad neu ynghynt trwy drefniant gyda thîm Blaen y Tŷ er mwyn osgoi'r ciwiau.

Mae ystafell gotiau'r theatr yn agor 45 munud cyn y perfformiad. Rydym yn codi tâl am bob eitem a gedwir. Mae'r ystafell gotiau ar yr islawr, drwy'r grisiau yn unig.

Bydd ein tîm Blaen y Tŷ yn hapus i fynd â chotiau yno ar ran cwsmeriaid anabl.

Gostyngiadau

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynnig mynediad i bawb, mae gostgyniadau safonol ar gael i bobl anabl, pobl dros 60 oed, myfyrwyr a rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn y rhan fwyaf o sioeau'r New Theatre. Hefyd, mae croeso i bob person anabl ddod â chydymdaith a fydd yn talu'r un pris gostyngol. Mae prisiau'n amrywio fesul sioe.

Rydym yn rhan o gynllun Hynt ac yn cynnig seddi am ddim i Gynorthwywyr Personol / Gofalwyr fynychu gyda phobl anabl cymwys. Mae manylion llawn a ffurflenni cais ar gael o'n Swyddfa Docynnau neu o wefan Hynt: http://www.hynt.co.uk

Cyrraedd a gadael y New Theatre

Man gollwng

Gallwch gyrraedd y brif fynedfa o Blas y Parc a Heol y Brodyr Llwydion. Mae'r ddwy stryd yn cynnwys mannau mynediad gwastad o fewn ychydig fetrau i'r brif fynedfa a mynedfa Drws y Llwyfan.

Bysiau

Am wybodaeth, ffoniwch Travel Line Cymru ar 0800 464 00 00. Mae yna res o safleoedd bysiau ar Heol y Brodyr Llwydion.

Trenau

Am wybodaeth, ffoniwch National Rail Enquiries (Cymraeg) ar 0345 60 40 500 neu ffôn testun ar 0345 60 50 600. Mae Gorsaf Heol y Frenhines tua 500 metr o'r theatr.

Parcio

Mae sawl maes parcio NCP gerllaw'r theatr gyda mannau parcio i bobl anabl a lifft i bob llawr. Does gan y safle NCP ar Heol y Brodyr Llwydion (gyferbyn â'r theatr) ddim mynedfa lefel y stryd, felly efallai na fydd yn addas i bob person anabl. Am wybodaeth, ffoniwch NCP ar 0845 050 7080 neu ewch i www.ncp.co.uk Mae'r llefydd parcio agosaf i ddeiliaid bathodyn glas ar Blas y Parc a Phlas Windsor Place. Gall deiliaid bathodyn glas ddefnyddio unrhyw le talu ac arddangos am ddim hefyd. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Cysylltu â Chaerdydd (C2C) ar 029 2087 2088.

Tacsis

Gall cwsmeriaid anabl ofyn am dacsi yn swyddfa reoli Blaen y Tŷ ar y llawr gwaelod.

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre

www.newtheatrecardiff.co.uk

Gwasanaeth benthyg cadair olwyn
Mae dwy gadair olwyn ar gael i'w benthyg yn ystod perfformiadau. I'w harchebu ymlaen llaw, ffoniwch swyddfa reoli Blaen y Tŷ ar 029 2087 8790.

Symud o amgylch y theatr

Mae tri drws y brif fynedfa ar lefel wastad ar gornel Plas y Parc a Heol y Brodyr Llwydion. O'r tair set o ddrysau sy'n arwain at gyntedd y theatr, mae'r drysau sydd ar yr ochr dde bellaf wrth i chi gyrraedd y theatr yn rhai awtomatig a byddant yn swingio i mewn wrth nesáu atynt.

Mae croeso i ddefnyddwyr cadair olwyn ddefnyddio'r fynedfa lefel wastad i ddrws y llwyfan sydd ger y man gollwng ar Heol y Brodyr Llwydion.

Mae'r awditoriwm yn cynnwys tair lefel: y Seddi Gwaelod, y Cylch a'r Cylch Uchaf. Mae dau ris yn arwain at bob llawr. Mae carped ar y lloriau i gyd heblaw am y cyntedd lle mae'r llawr yn bren. Mae lifft arbennig i bobl anabl ar gael hefyd (gweler tudalen 13).

Mae yna gynllun gadael mewn argyfwng i sicrhau diogelwch pob ymwelydd anabl. Gallwch ofyn amdano o Ddrws y Llwyfan neu trwy ffonio 029 2087 8790.

Yr Awditoriwm

Mae'r awditoriwm yn cynnwys tair lefel.

Seddi'r Llawr Gwaelod (llawr gwaelod)

Mae gan Seddi'r Llawr Gwaelod fynedfa wastad, gyda 4 gris i'r seddi o Ddrws B (agosaf at y Swyddfa Docynnau) neu 7 gris cul at y seddi agosaf at y llwyfan o Ddrws A, ger y man gwerthu. Hefyd, mae gan Ddrws A lifft cadair olwyn i'r seddi tu blaen, ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn sydd wedi archebu dau le penodol yn nhu blaen yr awditoriwm (gweler tudalen 10 am wybodaeth bwysig am y llefydd hyn). Mae lle i bedair cadair olwyn yn y cefn. Mae'r lefel hon yn cynnwys bar, swyddfa docynnau, man gwerthu a thoiled hygyrch.

Y Cylch (llawr cyntaf)

Mae'r grisiau troellog canolog yn syth o flaen y Swyddfa Docynnau yn arwain at y Cylch a'r Cylch Uchaf. Mae'r grisiau cefn ger swyddfa reoli Blaen y Tŷ (llawr gwaelod) yn cynnwys 13 gris. Mae gan y ddwy set o risiau ganllawiau. Mae bar, cyntedd, llefydd eistedd a thoiledau ar y llawr cyntaf, ond mae'r unig doiled hygyrch ar y llawr gwaelod.

Mae lifft arbennig i bobl anabl gyrraedd yr ardal eistedd hon. Ewch i dudalen 13 am fwy o wybodaeth. Rydym yn argymell eich bod yn archebu seddi rhif 17 ac uwch os ydych chi'n defnyddio'r lifft, gan taw dyna'r rhai agosaf at y lifft ei hun.

Y Cylch Uchaf (ail lawr)

Mae'r Cylch Uchaf yn hygyrch trwy'r grisiau a'r lifft (gweler tudalen 13 am fwy o fanylion). Mae'r prif risiau troellog ger y brif fynedfa yn mynd â chi i fyny 40 o risiau carped at y cyntedd. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys bar, man eistedd, toiledau a man gwerthu.

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

Os ydych chi'n defnyddio'n lifft arbennig, rydym yn eich argymell i archebu rhesi A-D a seddi rhif 18 ac uwch gan taw dyna'r rhai agosaf at y lifft.

Mae gan y ddwy set o risiau o boptu'r Cylch Uchaf ganllaw. Dyw'r toiledau ar y lefel hon ddim yn gwbl hygyrch. Mae toiled hygyrch ar y llawr gwaelod.

Seddi hygyrch

Gweler hefyd y wybodaeth am ein lifft arbennig (tudalen 13).

Seddi'r llawr gwaelod

Mae gan y New Theatre le i bum cadair olwyn yng nghefn ardal seddi'r llawr gwaelod gyda mynedfa wastad o lefel y stryd trwy ddwy set o ddrysau swingio. Maen nhw'n addas i ddefnyddwyr cadair olwyn o bob math. Mae'r llefydd hyn i gadeiriau olwyn yn rhes V – y rhes bellaf o'r llwyfan a'r agosaf at y fynedfa. Gan fod y Cylch uwchben, ni fydd modd gweld rhan ucha'r llwyfan o res V.

Mae grisiau i'r holl resi eraill lle mae dau le cadair olwyn agosaf at y llwyfan ar gyfer y rhan fwyaf o berfformiadau. Mae'r llefydd hyn ar gael i bobl sy'n gallu symud heb gymorth i'r gadair risiau pe bai angen gwagio'r theatr mewn argyfwng. Dim ond i bobl â chadeiriau olwyn gwthio mae'r rhain yn addas. Os ydych chi wedi archebu'r seddi hyn, ac yn defnyddio cadair olwyn electronig, gallwn ddarparu cadair olwyn wthio i chi. Siaradwch â'r Swyddfa Docynnau i drafod eich anghenion.

Os ydych chi mewn cadair olwyn, ac am eistedd yn un o'n seddi cyffredin i weld y sioe, ffoniwch ein swyddfa Blaen y Tŷ ar 029 2087 8790 cyn gorffen archebu'ch tocynnau.

O'r fynedfa hon (Drws A), mae mynedfa wastad i bob rhes heblaw am res V.

Y Cylch

Mae'r prif risiau troellog yn y cyntedd yn arwain at lefel y Bar o fewn 20 gris.

Mae grisiau o'r awditoriwm yn arwain at holl seddi'r Cylch, gyda llai o risiau yn arwain o'r ddwy fynedfa at y rhesi

agosaf at y llwyfan. Gall ein staff eich cynghori wrth archebu ac wrth gyrraedd yma, i sicrhau ymweliad mor hwylus â phosib.

Ar gyfer seddi rhif 1 i 16 (Drws C)
Defnyddiwch y drws ger Bar y Cylch (6 gris lawr i lefel yr awditoriwm) neu'r grisiau cefn ger swyddfa reoli Blaen y Tŷ (13 gris).

Ar gyfer seddi rhif 17 i 32 (Drws D)
Defnyddiwch y drws sy'n syth o flaen y grisiau troellog ar lefel y Cylch. Mae'r holl ddrysau mynediad i'r awditoriwm yn cynnwys grisiau o'r coridor.

Mae modd cyrraedd **rhesi G i M** gan ddefnyddio'r grisiau troellog hefyd (20 gris ychwanegol o lefel y Cylch). Nid ydym yn argymell y rhain at gyfer ymwelwyr â thrafferthion symud.

Mae lle i un gadair olwyn yn rhes M.

Y Cylch Uchaf

Ar gyfer holl seddi'r Cylch Uchaf, cymerwch y grisiau troellog (40 gris o'r prif gyntedd) a defnyddiwch Ddrws F nesaf at far y Cylch Uchaf, sydd 3 gris i ffwrdd. Mae canllawiau ar y ddwy set o risiau, gan fod rhaid dringo rhagor o risiau i gyrraedd rhesi B-F.

Bocsys

I gyrraedd **Bocsys B ac C**, cymerwch y grisiau gyferbyn â swyddfa reoli Blaen y Tŷ a'r 5 gris i lawr i fynedfa'r awditoriwm.

Ar gyfer **Bocsys D ac E**, cymerwch y fynedfa agosaf at far y Cylch Uchaf, sydd 3 gris i fyny o gyntedd y Cylch Uchaf.

I gyrraedd **Bocsys G a H** ewch i fyny'r grisiau troellog a thrwy'r fynedfa, sy'n syth o'ch blaen ar lefel y Cylch (Drws D). Ewch ar hyd y coridor hir tan i chi gyrraedd y fynedfa briodol (11 gris ar lefel y Cylch).

Mae bocsys **G a H** yn agored i ddefnyddiwr cadair olwyn ac yn hygyrch trwy'n lifft arbennig. Cofiwch y gall cadair olwyn yn y naill focs a'r llall gyfyngu ar y lle i bobl eraill yn y Bocs. Wrth archebu, cofiwch ddweud wrth y Swyddfa Docynnau eich bod angen mynediad cadair olwyn i un o'r Bocsys hyn.

I gyrraedd **Bocsys I a J** ewch drwy'r fynedfa agosaf at y grisiau troellog o'r Cylch Uchaf (Drws E).

Lifft arbennig

Mae'r lifft arbennig ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn sydd wedi prynu tocynnau ym Mocs G, Bocs H neu ar res M y Cylch. Mae croeso i ymwelwyr eraill sy'n cael trafferth gyda'r grisiau, ei ddefnyddio hefyd. Gofynnwn i bobl sy'n gallu defnyddio'r grisiau i barhau i wneud hynny er mwyn osgoi oedi cyn dechrau perfformiad. Os ydych chi'n bwriadu defnyddio'r lifft, cofiwch gyrraedd yn gynnar oherwydd efallai y bydd rhywfaint o giw yno.

I gyrraedd y lifft, defnyddiwch ddrws B ym mar y Seddi Llawr Isaf a dweud wrth aelod o'r staff sy'n gwirio'r tocynnau eich bod angen defnyddio'r lifft. Yna, bydd aelod arall o'r staff yn dod gyda chi i'r lifft ac yn mynd â chi i'r lefel ofynnol. Dim ond aelodau staff sy'n gallu rheoli'r lifft hwn.

Gallwch fynd i ardal bar y Cylch yn eich cadair olwyn yn ystod yr egwyl. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio'r lifft eto er mwyn osgoi'r grisiau. Trafodwch gyda'r staff sy'n rheoli'r lifft wrth gyrraedd. Yn anffodus, does dim modd cyrraedd bar y Cylch Uchaf heb ddefnyddio'r grisiau.

Er mai ein bwriad yw darparu toiled i bobl anabl ar y lefelau uchaf yn y dyfodol, dim ond ym mar y Llawr Gwaelod mae'r unig doiled anabl ar hyn o bryd. Pwyswch y botwm galw, a dylai aelod o'r staff fod yno'n fuan pe baech chi angen mynd i'r toiled yn ystod y sioe.

Os byddwn ni angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng, yna dim ond defnyddwyr cadair olwyn yn y safleoedd dynodedig fydd yn cael defnyddio'r lifft. Rhaid i bawb arall ddefnyddio'r grisiau er mwyn gwagio'r adeilad yn gyflym a diogel. Felly, os na allwch chi ddefnyddio cadair olwyn ac na allwch chi ymdopi â'r grisiau pe bai angen gadael ar frys, peidiwch â phrynu tocynnau ar lefel y Cylch, y Cylch

Uchaf neu'r Bocsys. Mae ystod eang o brisiau ar gael ar gyfer lefel Seddi'r Llawr Gwaelod.

Mae'r lifft yn addas i gadeiriau olwyn gwthio traddodiadol neu gadeiriau olwyn modur hyd at 840mm o led a 1150mm o hyd. Mae gennym gyflenwad o gadeiriau olwyn gwthio (â llaw) i drosglwyddo iddynt os yw'ch cadair chi'n rhy fawr. Gallwch archebu'r rhain trwy gysylltu â ni ymlaen llaw (gweler isod). Os na allwch chi symud i gadair olwyn wthio, yna byddai'n well i chi archebu un o'n llefydd yn Seddi'r Llawr Gwaelod, rhes V, sydd fwyaf addas i gadeiriau olwyn mwy o faint.

Mae croeso i chi ddod draw i weld pa mor addas yw'r lifft cyn y sioe – cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad.

Cyfleusterau i bobl ddall a rhai â nam ar eu golwg

Rydym yn cynnig perfformiadau wedi'u sain-ddisgrifio gyda seddi cadw yn nhu blaen y Seddi Llawr Gwaelod ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Gall ein staff ddod â diodydd at seddi pobl ddall a rhai â nam ar eu golwg adeg egwyl, ar gais. Siaradwch ag aelod o'r staff cyn i'r sioe ddechrau.

Perfformiadau wedi'u sain-ddisgrifio

Mae'r perfformiadau hyn ar gael ar gyfer sawl sioe bob tymor, yn y prynhawniau fel arfer. Gallwch archebu'r rhain trwy ffonio 029 2087 8889. Mae tocynnau rhatach ar gael yn y Seddi Llawr Gwaelod ar gyfer pob ymwelydd â nam ar ei olwg ac un cydymdaith. Efallai bod pobl â nam ar eu golwg yn gymwys am docyn rhad ac am ddim neu ostyngol i'w Cynorthwyydd Personol/Gofalwr. Siaradwch â'r Swyddfa Docynnau cyn archebu.

Sylwebaeth fyw gan ddisgrifiwr cymwys, yn gymysg â deialog yr actorion, yw sain-ddisgrifiad. Caiff ei throsglwyddo trwy glustffonau cynnil i'r system sain is-goch. Mae clustffonau ar gael o'r swyddfa docynnau a swyddfa reoli Blaen y Tŷ wrth gyrraedd. Mae'r disgrifiad yn cychwyn 15 munud cyn y perfformiad gyda manylion y set, yr olygfa, y cymeriadau a'r disgrifiadau sain i ddod.

Wrth archebu perfformiad wedi'i sain-ddisgrifio, cofiwch nodi'ch sedd ddewisol a faint o glustffonau sydd eu hangen arnoch. Mae angen talu blaendal o £5, a delir yn ôl wedyn.

Ymddiheuriadau, ond dyw'r signal ar gyfer perfformiadau wedi'u sain-ddisgrifio ddim yn cyrraedd rhes V Seddi'r Llawr Gwaelod.

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

Mae rhestr am ddim o'r cast ar ffurf print mawr, fersiwn Braille a nodiadau cyn-cynhyrchu ar gael ar gyfer ambell gynhyrchiad trwy ofyn ymlaen llaw amdanynt.

Cŵn tywys
Mae croeso i gŵn tywys ddod i'r theatr. Gallwn gynnig seddi ar ben y rhes er hwylustod i chi, ar gais wrth archebu. Gall aelodau'r staff ofalu am gŵn tywys yn ystod eich ymweliad ar gais. Trefnwch hyn ymlaen llaw trwy ffonio swyddfa reoli Blaen y Tŷ ar 029 2087 8790. Holwch am unrhyw effeithiau arbennig a allai effeithio ar gysur eich ci yn ystod y perfformiad.

Rhestr o berfformiadau wedi'u sain-ddisgrifio
Mae rhestr o'r perfformiadau hyn yn ein rhaglen ar gyfer y tymor ar dudalennau'r cynyrchiadau perthnasol ac ar dudalen 'Mynediad' ein gwefan.

Cyfleusterau ar gyfer pobl fyddar a'r trwm eu clyw

Systemau clywed gwell a chlustffonau

Mae system sain is-goch ar gael ledled yr awditoriwm er mwyn helpu cynulleidfaoedd i fwynhau perfformiadau'n well. Mae clustffonau ar gael i unrhyw un sydd â nam ar eu clyw neu sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth sain-ddisgrifiad ar gyfer perfformiadau penodol.

Mae dau fath o glustffonau ar gael. Mae'r cyntaf yn gofyn i chi dynnu'ch teclyn cymorth clyw gan ei fod yn ffitio yn y glust. Mae yna dri switsh sy'n chwyddo'r sain yn un glust neu'r ddwy, neu'n darparu sain-ddisgrifiad o'r perfformiad mewn un glust.

Neu, mae yna glustffon i'w roi am eich gwddw a switsio'ch teclyn cymorth clyw i 'T'. Noder nad yw'r math hwn o glustffon bob amser yn gweithio gyda'r mathau diweddaraf o declynnau cymorth clyw.

Dylech archebu clustffonau ymlaen llaw trwy ffonio 029 2087 8790. Gallwch eu casglu o swyddfa Blaen y Tŷ yn ardal bar y Seddi Llawr Gwaelod cyn y perfformiad, ac mae angen talu blaendal o £5 (i'w ad-dalu ar y diwedd).

Ymddiheuriadau, ond dyw'r signal ddim yn cyrraedd rhes V y Seddi Llawr Gwaelod.

Pobl sy'n defnyddio teclyn cymorth clyw

Mae system dolen sain ar gael ar gownter ochr dde'r Swyddfa'r Docynnau ar gyfer archebion ac ymholiadau cwsmeriaid. Nodwch nad oes dolen sain yn yr awditoriwm (gweler y dewisiadau uchod).

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre

www.newtheatrecardiff.co.uk

Cŵn clywed
Mae'r theatr yn croesawu cŵn clywed. Gallwn gynnig seddi ar ben y rhes er hwylustod i chi, ar gais wrth archebu. Gall aelodau'r staff ofalu am gŵn tywys yn ystod eich ymweliad ar gais. Trefnwch hyn ymlaen llaw trwy ffonio swyddfa reoli Blaen y Tŷ ar 029 2087 8790. Holwch am unrhyw effeithiau arbennig a allai effeithio ar gysur eich ci yn ystod y perfformiad.

Perfformiadau gydag Iaith Arwyddion Prydain
Mae'r New Theatre yn aelod o SPIT *(Signed Performance in Theatre).*

Mae'r New Theatre yn cynnig perfformiadau wedi'u dehongli gan Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer sawl sioe bob tymor. Mewn perfformiadau o'r fath, mae'n dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain cofrestredig a chymwys yn sefyll ar un ochr o'r llwyfan, gan drosi'r testun i Iaith Arwyddion Prydain ochr yn ochr â'r perfformiad byw.

Mae bloc o seddi rhes flaen yn Seddi'r Llawr Gwaelod wedi'i gadw ar gyfer pobl fyddar fel bod ganddyn nhw olygfa dda o'r dehonglwr. Ffoniwch 029 2087 8889 i archebu'r rhain, gan bwysleisio'r ffaith y byddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Perfformiadau â chapsiynau
Mae'r New Theatre yn cynnig Perfformiadau â Chapsiynau o sawl sioe gydol y flwyddyn. Mae capsiynau yn trosi'r geiriau ar lafar yn destun, sy'n rhoi cyfle i bobl sydd wedi colli eu clyw i fwynhau perfformiad byw. Mae'r geiriau yn ymddangos ar y sgrin yr un pryd â'r rhai sy'n cael eu canu neu eu llefaru. Hefyd, mae'r capsiynau yn cynnwys effeithiau sain a synau oddi ar y llwyfan. Rydym yn neilltuo seddi rhatach ar y tu blaen yn Seddi'r Llawr Gwaelod ar gyfer y perfformiadau hyn. Ffoniwch 029 2087

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

8889 i ddweud y byddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Rhestr o berfformiadau gydag laith Arwyddion Prydain a Pherfformiadau â Chapsiynau
Mae rhestr o'r perfformiadau hyn wedi'u nodi yn ein rhaglen ar gyfer y tymor ac ar dudalen 'Mynediad' ein gwefan.

Gwybodaeth i Bobl Awtistig

Eich ymweliad

Bydd yr awditoriwm ar agor tua 30 munud cyn dechrau'r sioe. Bydd y bar ar agor bryd hynny hefyd, ac mae pob lefel yn cynnwys cyntedd lle gallwch chi aros. Gallai'r llefydd hyn fod yn brysur iawn. Mae angen tocyn i fynd i mewn i'r theatr a bydd angen i chi ei ddangos i staff Blaen y Tŷ a fydd yn eich tywys i'ch sedd. Bydd manylion y rhes a rhif y sedd wedi'u hargraffu ar eich tocyn. Os hoffech fynd i'ch sedd cyn pawb arall, gofynnwch i aelod o'r staff a fydd yn trefnu hyn i chi.

Y perfformiad

Cyn i'r perfformiad gychwyn, bydd pobl yn mynd a dod o amgylch yr awditoriwm i chwilio am eu seddi. Efallai y bydd sŵn cerddoriaeth i'w glywed a chyhoeddiad yn cael ei wneud i'r gynulleidfa. Toc cyn i'r perfformiad gychwyn, bydd goleuadau'r awditoriwm yn pylu. Bydd y llenni'n codi a'r gynulleidfa'n eistedd yn dawel wrth ddisgwyl i'r sioe ddechrau. Efallai y bydd achosion o chwerthin neu'n cymeradwyo yn ystod y perfformiad.

Fel arfer, mae yna egwyl hanner ffordd drwy'r perfformiad. Bydd y gynulleidfa'n cymeradwyo a'r llenni yn disgyn eto. Bydd y goleuadau'n dod ymlaen a phobl yn cael cyfle i fynd i'r cyntedd am ddiod neu fynd i'r toiled. Bydd yr egwyl yn para tua 20 munud, a bydd cyhoeddiad yn cynghori pobl i ddychwelyd i'w seddi ar gyfer yr ail act. Bydd y goleuadau'n pylu unwaith eto, a'r llenni'n codi.

Ar ddiwedd y sioe, bydd y gynulleidfa'n cymeradwyo, y llenni'n disgyn, a'r goleuadau'n dod ymlaen eto. Gall gymryd ychydig funudau i'r gynulleidfa adael yr awditoriwm ac fe all fod yn orlawn o bobl.

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

Cofiwch fod rhai perfformiadau yn cynnwys goleuadau strôb, sŵn bangio uchel fel sŵn gwn yn tanio, cerddoriaeth uchel a fflacholeuadau. Cofiwch holi'r Swyddfa Docynnau wrth archebu'ch tocynnau, rhag ofn bod y sioe yn cynnwys yr elfennau hyn. Hefyd, bydd arwyddion ar y drysau yn rhybuddio pobl am hyn cyn y sioe.

Perfformiadau mwyn

Mae'r New Theatre yn cychwyn rhaglen o Berfformiadau Mwyn ar gyfer pobl ag awtistiaeth, anableddau dysgu a namau cyfathrebu a synhwyraidd. Holwch y Swyddfa Docynnau am fanylion.

Cyfleusterau eraill

Ein hymrwymiad i'ch gwasanaethu chi

Am unrhyw gymorth yn ystod eich ymweliad, gofynnwch i'n staff cyfeillgar. Fel rhan o'n hymrwymiad i fynediad i bawb, mae pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant sylfaenol ymwybyddiaeth o anabledd.

Rydym yn croesawu adborth am ein gwasanaethau cwsmeriaid. Yn ystod eich ymweliad, cysylltwch â'r Rheolwr ar Ddyletswydd gydag unrhyw ofynion arbennig ac i rannu unrhyw sylwadau. Nodwch unrhyw broblemau yn ystod eich ymweliad. Fe wnawn ein gorau glas i'w datrys yn y fan a'r lle.

Cynteddau

Mae byrddau a seddi amrywiol ar gael ar bob lefel. Mae'r rhai mwyaf hygyrch ar y llawr gwaelod, gyda seddi yn ardal y bar a'r man gwerthu. Mae diodydd ac ychydig o fyrbrydau ar gael. Gallwch archebu diodydd ymlaen llaw i osgoi ciwiau yn ystod yr egwyl ac wedi'r perfformiadau. Mae fersiwn print mawr o brisiau'r bar ar gael. Lle bo'n bosib – rhowch wybod inni ymlaen llaw os ydych chi eisiau'r gwasanaeth hwn. Mae rhaglenni a nwyddau hefyd ar gael ar y lefel hon.

Ffonau

Mae croeso i bobl mewn cadair olwyn ddefnyddio ffôn rheolwyr y tŷ ar y llawr gwaelod. Cysylltwch â'r rheolwr ar ddyletswydd i drefnu tacsi.

Sut i gysylltu â ni

The New Theatre, Plas y Parc, Caerdydd CF10 3LN

Anfonwch eich sylwadau a'ch awgrymiadau i:
Swyddfa Rheolwr y Theatr
Ffôn 029 2087 8787 Ffacs 029 2087 8788

Rheolwr Blaen y Tŷ
Ffôn 029 2087 8790 Ffacs 029 2087 8788

Swyddfa Docynnau
Ffôn 029 2087 8889 Ffacs 029 2087 8879
Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 10am - 6pm (a tan 8pm ar nosweithiau perfformiadau)

Arlwyo
Ffôn 029 2087 8790

E-bost
ntmailings@cardiff.gov.uk

Canllawiau mynediad Neuadd Dewi Sant:

029 2087 8542 (ffôn) neu 029 2087 8546 (ffacs)

Diolch i'r canlynol am ein helpu i baratoi'r canllawiau:

- Grŵp Datblygu Mynediad y New Theatre a Neuadd Dewi Sant
- Staff y New Theatre a Neuadd Dewi Sant
- Disability Arts Cymru
- Gofalwyr Cymru

Canllawiau Mynediad i'r New Theatre
www.newtheatrecardiff.co.uk

- Anabledd Cymru
- Mencap
- MIND Cymru
- RNIB Cymru

Ymwadiad:
Mae'r cyfleusterau a ddisgrifir a'r wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg. I gael y datblygiadau diweddaraf, cysylltwch â'r New Theatre neu ewch i www.newtheatrecardiff.co.uk/access

Cyngor Dinas Caerdydd sy'n berchen ar, yn rheoli ac yn ariannu'r New Theatre.